

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2022
7 Tachwedd 2022, 7.30 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, June Jones, Siân Cwper (yn ymuno yn rhithiol)

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

3. Ymddiheuriadau

Bethan Gritten

4. Cadarnhau Cofnodion Misol 5 Medi 2022

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Nid oes cais cynllunio wedi ei dderbyn hyd yn hyn. Credir fod yr oedi yn ymwneud â'r cyfyngiadau ar allyriadau ffosffad i'r afon Glaslyn ddaeth i rym yn ddiweddar.

5.2 13 Garreg Frech

Cyfarfu Mabon ap Gwynfor AS, y Cynghorydd Glyn Griffiths, y Cynghorydd Siân Cwper a'r Cynghorydd June Jones ar y safle ar 7 Hydref. Trefnwyd fod coed ar yr eiddo yn cael eu torri gan Scottish Power.

Cytunodd y Cynghorydd June Jones i ysgrifennu at adran dreth Cyngor Gwynedd er mwyn holi am ddiweddariad ar y broses o osod arwystl cyfreithiol, (legal charge), ar yr eiddo, fel y gallasid ei werthu. Hefyd fe gytunodd y Cynghorydd June Jones i ofyn i'r Parc Cenedlaethol a fyddent yn medru cyflwyno Rhybudd A.215 ar yr eiddo gan ei fod mewn cyflwr blêr.

Cyfeiriwyd at y ffaith fod yna eiddo gwag arall yn Llanfrothen, sef Artro sydd wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd. Mae Cyngor Gwynedd yn ysgrifennu at berchnogion tai gwag yn gofyn a fyddent efo diddordeb i'w gwerthu i Gyngor Gwynedd, fel y gall Cyngor Gwynedd eu defnyddio er mwyn taclo'r broblem o ddiffyg tai i bobl leol.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gweld os oedd perchnogion Artro wedi cael y llythyr yma.

5.3 Y Ganolfan

Mae'r gegin wedi cael ei gosod, ac mae'r gwaith paentio bron a'i orffen.

Bydd yr amcan bris am y gwaith paentio yn codi oherwydd yr angen i roi cotiau paent ychwanegol, llenwi tyllau yn y gegin, tynnu teils yn y gegin, tynnu 4 hysbysfwrdd mawr a phaentio oddi tanynt, a llenwi twll uwchben y drws ffrynt

Cytunodd yr ysgol adael y gwasanaeth di wifr ymwelwyr Gwynedd ymlaen fel ei fod ar gael ar gyfer ei ddefnyddio yn Y Ganolfan. Fodd bynnag, nid yw'r signal yn signal yn ddigon cryf i fedru gwneud defnydd ohono.

Mae'r ysgol yn cloi giât flaen Y Ganolfan pan fo plant yn chwarae. Mae hyn yn achosi anghyfleustra i'r rhai hynny sydd am fynediad i'r Ganolfan.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Pennaeth yn gofyn i'r giât beidio cael ei chloi, ac awgrymu symud y giât neu osod giât ychwanegol fel bod diogelwch plant yn cael ei sicrhau ond heb amharu ar y defnydd o'r Ganolfan.

5.4 Goryrru Llanfrothen

Mae'r arwydd 30 m.y.a. ar y ffordd i mewn i Lanfrothen o gyfeiriad Penrhyndeudraeth wedi cael ei symud yn agosach at ffin pentref Llanfrothen.

Fodd bynnag, parheir i ddisgwyl i'r gwaith o osod marciau ffordd gael ei wneud gan Gyngor Gwynedd, ac maen nhw wedi dweud fod yr oedi oherwydd anallu'r cwmni sydd i wneud y gwaith a diffyg staff. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno y byddant yn cysylltu efo'r cwmni er mwyn gweld a fedrant hwyluso'r sefyllfa er mwyn cyflawni'r gwaith marcio ffordd.

Cytunodd y Cynghorydd Elin Jones i ddanfôn ymlaen dolen sy'n rhoi gwybodaeth ar sut y gall aelodau'r gymuned wirfoddoli a sefydlu cynllun monitro cyflymder eu hunain.

5.5 Maes Chwarae Llanfrothen

Penderfynwyd peidio dosbarthu'r arolwg am yr angen am faes chwarae yn Llanfrothen, hyd nes gweld os oedd y datblygiad yng Ngharreg Frech yn mynd yn ei flaen.

5.6 Cyfethol Aelodau

Mae'r cyngor cymuned yn parhau efo tair sedd wag. Dangosodd Tracey Evans o Lanfrothen ddiddordeb i gael ei chyfethol yn aelod, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu ati.

5.7 Mynwent Tan Lan

Cytunwyd i ddisgwyl y bil gan Dylan Edwards cyn trafod y mater ymhellach.

Ar hyn o bryd gwneir 6 toriad y flwyddyn o'r fynwent o gwmpas y cerrig beddi, a 2 doriad o weddill y fynwent yn gyffredinol.

Cytunwyd i geisio cael gwirfoddolwyr at ei gilydd i frwsio'r gwair ym mynwent Tan Lan ar ôl y toriad cyntaf nesaf ym Mis Ebrill 2023.

5.8 Llwybr Cerdded a Seiclo Llanfrothen – Penrhyndeudraeth (Grid Cenedlaethol budd cymunedol)

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i gynrychiolwyr o National Grid fynychu cyfarfod mis Ionawr er mwyn rhoi cyflwyniad ar y gwaith o gladdu'r ceblau trydan o dan y Glaslyn, ac am unrhyw fuddiannau cymunedol sydd ar gael.

5.9 Cynllun Hyfforddiant

Mae'r wrthi'n drafftio cynllun hyfforddiant ac yna bydd angen ei gymeradwyo.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Medi 2022 £239.72

TWE £59.80

6.2 Cyflog Clerc Hydref 2022 £239.72

TWE £59.80

6.3 Robert Roberts cegin a gosod cegin Y Ganolfan £2,292.87

6.4 Scottish Power, trydan Y Ganolfan £93.49

6.5 Cyngor Gwynedd costau etholiad £107.00

6.6 Michael Kerr agor bedd 26/10/22 £520.00

6.7 Dunn & Ellis Anfoneb 141022 £59.40

- 6.8** Costau HSBC £16.00
- 6.9** Derbyn siec am gladdedigaeth gan Henry Jones ymgwymerwyr Cricieth £1,600.00
- 6.10** Taliad i'r banc am ddwy gladdedigaeth Pritchard a Griffiths £2,780.00
- 6.11** Balans yn y prif gyfrif 1 Tachwedd 2022 £18,597.00
Balans yn y cyfrif cadw 1 Tachwedd 2022 £21,145.93

7. Gohebiaeth

Cais am gymorth ariannol gan Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023.

Cytunwyd i beidio cynnig rhodd ariannol, gam mae polisi arferol y cyngor cymuned yw cynnig rhodd pan fod yr Eisteddfod yng Ngogledd Cymru

8. Cynllunio

Cais NP5/68/L122A – Ramoth Isaf, Llanfrothen, gosod drysau dwbl Ffrengig i fflat llawr gwaelod.

Dim gwrthwynebiad.

9. Materion Eraill

9.1 Cymeradwyo Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Cymeradwywyd polisiâu'r cyngor cymuned a ddanfonwyd ar e-bost yn ddiweddar, am y flwyddyn 2022/23.

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

9.2 Clymog Siapan, Pont Haearn, Afon Caseg

Mae Clymog Siapan yn tyfu ger Pont haearn yn afon Caseg. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gweld a fedrent nhw reoli'r tyfiant, gan fod y tyfiant yn yr afon

9.4 Ardal Ni 2035

Mynychodd y Cynghorydd Elin Jones gyfarfod ARDAL NI 2035 a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Porthmadog gan Gyngor Gwynedd.

Pwrpas y cyfarfod oedd hel syniadau ar yr hyn yr hoffai pobl ei weld yn eu hardal hyd at 2035.

Bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi adroddiad ar yr ymgynghoriad maes o law.

9.5 Cais gan Ramblers Cymru am gymorth i gysylltu efo tiffeddianwyr er mwyn newid camfeydd yn gatiâu ar lwybrau'r ardal.

Cafwyd cais gan Ramblers Cymru am gymorth i ymgysylltu efo tiffeddianwyr lleol er mwyn newid camfeydd yn gatiâu. Maent wedi llunio rhestr grid o'r safleoedd dan sylw ac am i'r cyngor cymuned gynnig manylion perchnogion a thiffeddianwyr gerllaw.

Mae Ramblers Cymru yn fodlon prynu a gosod y gatiâu eu hunain, ac yn cynnig gosod arwyddion a meinciau hefyd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu atynt gan ddweud fod y cyngor cymuned yn gyffredinol gefnogol i newid camfeydd am gatiâu, ond yn awgrymu fod y Ramblers yn cysylltu efo perchnogion yn uniongyrchol eu hunain.

Rhoddwyd rhai sylwadau ar gyfeiriadau map a llwybrau a baratowyd gan y Ramblers, a gofynnwyd i'r Clerc ddanfôn y rhain ymlaen atynt.

Mae'r cyngor cymuned yn cytuno mewn egwyddor i gyfrannu hyd at £650 at hyrwyddo ac ail osod arwyddion llwybrau cyhoeddus gan ganolbwyntio ar y 4 prif lwybr yn gyntaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9 Ionawr 2022